OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1628

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 2

### Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rhan 1**

**4.**—(1) Mae Rhan 1 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2—

(a) Ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "llwyth a reolir"—

(aa) yn lle "diriogaeth yr Undeb", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "Brydain Fawr";

(bb) ym mharagraff (a)(i), yn lle "o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Iechyd Planhigion";

(cc) hepgorer paragraff (a)(ii);

(dd) ym mharagraff (a)(iii), yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion", ac yn lle "o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Iechyd Planhigion";

(ii) yn y diffiniad o "pla planhigion a reolir"—

(aa) ym mharagraff (a), ar ôl "2," mewnosoder "2A,";

(bb) hepgorer paragraff (b);

(cc) ym mharagraff (c), yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion";

(iii) hepgorer y diffiniad o "penderfyniad brys gan yr UE";

(iv) yn y diffiniad o "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE", ar y diwedd mewnosoder "fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE";

(v) hepgorer y diffiniad o "un o reolau iechyd planhigion yr UE";

(vi) yn y diffiniad o "Rheoliad Rheolaethau Swyddogol", yn lle "i reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "i'r rheolau iechyd planhigion";

(vii) yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "rheol iechyd planhigion" ("*plant health rule*") yw rheol o'r fath a grybwyllir yn Erthygl 1(2)(g) o'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol;";

"ystyr "Rheoliad Iechyd Planhigion" ("*Plant Health Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cygnor ar fesurau gwarchod rhag plâu planhigion(**1**);";

(viii) yn y diffiniad o "pla planhigion", yn lle "o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE" rhodder "o'r Rheoliad Iechyd Planhigion";

(ix) yn y diffiniad o "eitem a reoleiddir", yn lle "o reolau iechyd planhigion yr UE" rhodder "o'r rheolau iechyd planhigion";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "Rheoliad Iechyd Planhigion yr UE", yn y ddau le y mae'n digwydd, rhodder "y Rheoliad Iechyd Planhigion".

(3) Hepgorer rheoliadau 3 a 4.

(4) Yn rheoliad 5—

(a) yn y pennawd, yn lle "**o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE**" rhodder "**o'r Rheoliad Iechyd Planhigion**";

(b) ym mharagraffau (1) a (2), yn lle "o Reoliad Iechyd Planhigion yr UE", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "o'r Rheoliad Iechyd Planhigion".

(**1**) EUR 2016/2031.